



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 2799 (Cy.267)

2002 No. 2799 (W.267)

TAI, CYMRU

HOUSING, WALES

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu
Tai (Ffurflenni a Manylion
Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru)
2002

The Housing Renewal Grants
(Prescribed Forms and Particulars)
(Amendment) (Wales) Regulations
2002

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Ffurflenni (dwyieithog) sydd i'w defnyddio gan berchenfeddianwyr a thenantiaid wrth wneud cais am grantiau adnewyddu tai o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

These Regulations amend the (bilingual) Forms to be used by owner-occupiers and tenants when applying for housing renewal grants under Chapter I of Part I of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996.

Mae'r ffurflen Gymraeg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Gymraeg) 1998 (O.S. 1998/1113 fel y'i diwygiwyd).

The Welsh language form amended is set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Welsh Form and Particulars) Regulations 1998 (S.I. 1998/1113 as amended).

Mae'r ffurflen Saesneg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996 (O.S. 1996/2891 fel y'i diwygiwyd).

The English language form amended is set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Amendment) Regulations 1996 (S.I. 1996/2891 as amended).

Mae'r diwygiadau yn dilyn y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002 (O.S. 2798) (Cy.266)i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (O.S. 1996/2890).

The amendments are consequential on those being made by the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2799) (W.266)to the Housing Renewal Grants Regulations 1996 (S.I. 1996/2890).

2002 Rhif 2799 (Cy.267)**2002 No. 2799 (W.267)****TAI, CYMRU****HOUSING, WALES****Rheoliadau Grantiau Adnewyddu
Tai (Ffurflenni a Manylion
Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru)
2002****The Housing Renewal Grants
(Prescribed Forms and Particulars)
(Amendment) (Wales) Regulations
2002**

Wedi'u gwneud 12 Tachwedd 2002
Yn dod i rym 13 Tachwedd 2002

Made 12th November 2002
Coming into force 13th November 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(2) a (4), a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(a) fel y'u hestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(b), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 2(2) and (4) and 146(1) and (2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996(a) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(b) makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 13 Tachwedd 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig ac nid ydynt yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau grant sy'n cael eu gwneud cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the Housing Renewal Grants (Prescribed Forms and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 13th November 2002.

(2) These Regulations apply to Wales only, and shall not have effect in relation to applications for grant made before the date on which these Regulations come into force.

Diwygiadau

2.-(1) Mae'r ffurflen (Saesneg ei hiaith) a nodir yn yr Atodlen i Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) 1996(c) yn cael ei diwygio fel a nodir yn y testun Saesneg o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Amendments

2.-(1) The (English language) form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) Regulations 1996(c) is amended as set out in the English language text of the Schedule to these Regulations.

- (a) 1996 p.53. Mae Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. I gael y diffiniad o "prescribed" *gweler* adran 101.
- (b) 1993 p.38.
- (c) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3199, 1997/978, 1998/809, 1999/1607, 1999/3470 (Cy.56), 2000/1735 (Cy.119), 2001/2071 (Cy.143) a 2001/4006 (Cy.332).

- (a) 1996 c.53. The functions of the Secretary of State have been transferred to the National Assembly for Wales *See* article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), to which there are amendments not relevant to these Regulations. For the definition of "prescribed" *see* section 101.
- (b) 1993 c.38.
- (c) S.I. 1996/2891, amended by S.I. 1996/3199, 1997/978, 1998/809, 1999/1607, 1999/3470 (W.56), 2000/1735 (W.119), 2001/2071 (W.143) and 2001/4006 (W.332).

(2) Mae'r ffurflen (Gymraeg ei hiaith) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998(a) yn cael ei diwygio fel a nodir yn y testun Cymraeg o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) The (Welsh language) form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Welsh Form and Particulars) Regulations 1998(a) is amended as set out in the Welsh language text of the Schedule to these Regulations.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b)

12 Tachwedd 2002

12th November 2002

D.Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1998/1113 a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/2316, 1999/3470 (Cy.56), 2000/1735 (Cy.119), 2001/2071 (Cy.143) a 2001/4006 (Cy.332).

(b) 1998 p. 38.

(a) S.I. 1998/1113 as amended by S.I. 1999/2316, 1999/3470 (W.56), 2000/1735 (W.119), 2001/2071 (W.143) and 2001/4006 (W.332).

(b) 1998 c.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 2

1. Ar ddiwedd cwestiwn 3.1, ychwanegwch - "neu a ydy'r ddau ohonoch yn cael (ac a oes gennych hawl i gael) lwfans ceisio gwaith drwy gais ar y cyd?".
2. Yng nghwestiwn 3.29 mewnosodwch y canlynol yn y lle priodol -
 - (a) "Lwfans Profedigaeth: £.....
£..... **Nodyn 84C**";
 - (b) "Lwfans ceisio gwaith drwy gais ar y cyd: £.....
£..... **Nodyn 48**";
 - (c) "Lwfans mam weddw: £.....
£..... **Nodyn 84D**";
 - (d) "Lwfans rhiant gweddw: £.....
£..... **Nodyn 84D**".
3. Ar ôl cwestiwn 3.34B, mewnosodwch -
"**3.34C** Rhowch fanylion unrhyw daliad a wnaed i chi neu i'ch partner i dalu iawn am ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. **Nodyn 90F**"
4. Ym mharagraffau (a) a (b) o'r Awdurdodiad ar ddiwedd Rhan 3 o'r ffurflen, ar ôl "lwfans ceisio gwaith ar sail incwm" mewnosodwch "neu lwfans ceisio gwaith drwy gais ar y cyd".
5. Yn nodyn 48 -
 - (a) ar ôl "le Cymhorthdal Incwm" ychwanegwch "Os yw'r ddau bartner yn gymwys i gael lwfans ceisio gwaith o 19 Mawrth 2001 ymlaen dylent wneud "cais ar y cyd" am lwfans ceisio gwaith.";
 - (b) ar ôl "**Rhan 3**", yn yr ail le y mae'n digwydd, mewnosodwch "os yw'r cwpl yn cael lwfans ceisio gwaith drwy gais ar y cyd, caiff dau aelod y cwpl lenwi'r **awdurdodiad** ar ddiwedd **Rhan 3**".
6. Yn y rhestr ym mharagraff cyntaf nodyn 83 yn lle "neu yn Newis Tasglu Amgylchedd y Fargen Newydd lle yr ydych chi yn hunangyflogedig o dan Ddewis Cyflogaeth y Fargen Newydd a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973;" rhowch ",yn Newis Tasglu Amgylchedd y Fargen Newydd lle yr ydych chi yn hunangyflogedig o dan Ddewis Cyflogaeth y Fargen Newydd, rhaglen y Cyfnod Gweithgaredd Dwys neu'r Cyfnod Gweithgaredd Dwys ar gyfer y rhai dros 50 a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 neu gymhorthdal i gefnogi eich hunangyflogaeth".
7. Ar ôl nodyn 84B mewnosodwch -
"**84C**. Byddwchystal â rhoi manylion unrhyw lwfans profedigaeth a gawsoch yn y 12

SCHEDULE

Regulation 2

1. At the end of question 3.1, add - "or are both of you receiving (and entitled to receive) a joint-claim jobseeker's allowance?".
2. In question 3.29 insert the following entries in the appropriate place -
 - (a) "Bereavement Allowance: £.....
£..... **Note 84C**";
 - (b) "Joint-claim jobseeker's allowance: £.....
£..... **Note 48**";
 - (c) "Widowed mother's allowance: £.....
£..... **Note 84D**";
 - (d) "Widowed parent's allowance: £.....
£..... **Note 84D**";
3. After question 3.34B, insert -
"**3.34C** Please give details of any payment made to you or your partner to compensate for events which occurred during the Second World War. **Note 90F**".
4. In paragraphs (a) and (b) of the Authorisation at the end of Part 3 of the form, after "an income-based jobseeker's allowance" insert "or a joint-claim jobseeker's allowance".
5. In note 48 -
 - (a) after "replaced income support" add "Where both partners qualify for the jobseeker's allowance from 19th March 2001 they should make a "joint claim" for jobseeker's allowance.";
 - (b) After "**Part 3**", in the second place where it occurs, insert "Where a couple are receiving a joint-claim jobseeker's allowance, both members of the couple may complete the **authorisation** at the end of **Part 3**".
6. In the list in the first paragraph of note 83 for "or in the Environment Task Force Option of the New Deal where you are self-employed under the Employment Option of the New Deal made under section 2 of the Employment and Training Act 1973;" substitute ", Environment Task Force Option of the New Deal where you are self-employed under the Employment Option of the New Deal, the Intensive Activity Period programme or the Intensive Activity Period for 50 plus made under section 2 of the employment and Training Act 1973 or as assistance to support your self-employment".
7. After note 84B insert -
"**84C**. Please give the details of any bereavement allowance which you have

mis diwethaf. Telir lwfans profedigaeth i berson dros 55 oed ac o dan 60 oed a ddaeth yn weddw ar neu ar ôl 9 Ebrill 2001. Telir y lwfans o dan adran 39B o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992."

"**84D.** Telir lwfans mam weddw o dan adran 37 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 a thelir lwfans rhiant gweddw o dan adran 39A o'r Ddeddf honno."

8. Ar ôl nodyn 90E, mewnosodwch -

"**90F.** Y taliadau a anwybyddir wrth gyfrifio cyfalaf yw'r rheiny sy'n daladwy i chi neu eich partner i dalu iawn i chi, eich partner, eich priod marw neu briod marw eich partner am fod, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn gaethlafuriwr neu'n lafuriwr o dan orfodaeth neu'n riant i blentyn a fu farw neu am ddiodef anaf personol neu golli eiddo yn ystod y Rhyfel hwnnw."

9. Ar ddiwedd nodyn 93, ychwanegwch:

Dylech ateb "Nac ydw" i'r cwestiwn hwn os ydych ar seibiant mamolaeth, gyda hawl i gael tâl mamolaeth statudol o dan adran 164 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 neu lwfans mamolaeth o dan adran 35 o'r Ddeddf honno, a dim ond ar gyfer y plentyn y mae'r seibiant mamolaeth yn berthnasol iddo y telir y taliadau gofal plant."

10. Yn nodyn 95A ar ôl "**Rhan 3**" mewnosodwch "Os yw cwpl yn cael lwfans ceisio gwaith drwy gais ar y cyd, caiff dau aelod y cwpl lenwi'r **awdurdodiad** ar ddiwedd **Rhan 3**".

received in the last 12 months. A bereavement allowance is paid to a person aged over 55 years and under 60 who has been widowed on or after 9th April 2001. The allowance is paid under section 39B of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992."

"**84D.** A widowed mother's allowance is paid under section 37 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992 and a widowed parent's allowance is paid under section 39A of that Act."

8. After note 90E, insert -

"**90F.** The payments which are disregarded in the calculation of capital are those payable to you or your partner to compensate you, your partner, your deceased spouse or your partner's deceased spouse for having been, during the Second World War, a slave labourer or forced labourer or the parent of a child who has died or for having suffered personal injury or loss of property during that War."

9. At the end of note 93, add:

You should answer "No" to this question when you are on maternity leave, entitled to statutory maternity pay under section 164 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992 or maternity allowance under section 35 of that Act, and the childcare payments are only paid for the child to whom the maternity leave relates."

10. In note 95A after "**Part 3**" insert "Where a couple are receiving joint-claim jobseeker's allowance, both members of the couple may complete the **authorisation** at the end of **Part 3**".

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 2799 (Cy.267)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu
Tai (Ffurflenni a Manylion
Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru)
2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 2799 (W.267)

HOUSING, WALES

The Housing Renewal Grants
(Prescribed Forms and Particulars)
(Amendment) (Wales) Regulations
2002

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00


W190/11/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090583-0



9 780110 905839